# Meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial ac Uniondeb Academaidd: canllaw byr i fyfyrwyr

## Rhagarweiniad

Bydd llawer ohonoch yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddar ym meddalwedd deallusrwydd artiffisial (AI) a chreu Modelau Iaith Mawr (LLMs) sydd ar gael ar-lein (rhai ohonynt am ddim). Yr offeryn ChatGPT sy'n cael y cyhoeddusrwydd mwyaf o'r datblygiadau hyn. Fodd bynnag, mae DALLE-2, CoPilot, Bing Chat a Google Bard yn enghreifftiau o feddalwedd tebyg arall.

Wrth i dechnoleg deallusrwydd artiffisial ddod yn rhan gynyddol o gymdeithas a chyflogaeth, mae'n bwysig bod addysg yn cofleidio'r defnydd arni, **lle bo'n briodol.** Fodd bynnag, o wneud hynny, bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn cynnal uniondeb academaidd ei rhaglenni ac yn y pen draw, chi (ac nid offeryn deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol) sy'n bodloni deilliannau dysgu rhaglen radd.

## Beth all technoleg deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol fod yn ddefnyddiol ar ei gyfer?

- Trefnu nodiadau wedi'u teipio
- Helpu i esbonio cysyniadau
- 'Glanhau' trawsgrifiadau awtomatig o fideos
- Cyfieithu testun (e.e. o bapur ymchwil neu destun)
- Crynhoi ffynonellau cyhoeddedig
- Datblygu syniadau neu gynlluniau
- Helpu i wella gramadeg

## Beth yw cyfyngiadau posibl deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol?

- Ni ellir gwarantu cywirdeb ffeithiol bob amser.
- Modd cynhyrchu gwybodaeth ffug – gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen.
- Nid yw technoleg deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn gwneud cystal mewn pynciau arbenigol.
- Mae modd i ffynonellau gael eu ffugio.
- Mae yna botensial i ogwyddo at safbwyntiau Gorllewinol a photensial i barhau â stereoteipiau.
- Mae rhai ieithoedd yn cael eu tangynrychioli mewn Modelau Iaith Mawr

## Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ac uniondeb academaidd

Nid yw'r Brifysgol yn gwahardd defnyddio'r offer deallusrwydd artiffisial hyn. Fodd bynnag, mae angen i'r defnydd ohonynt fod yn deg ac yn briodol.

Yr **egwyddor arweiniol** i chi fel myfyriwr yw bod angen i gynnwys eich asesiad (e.e., y mynegiant ysgrifenedig sylfaenol, dadleuon, dehongliadau, casgliadau ac ati) fod yn waith gennych chi.

Dylid cosbi achosion sy'n mynd yn groes i'r egwyddor hon, boed yn ymwneud â defnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ai peidio (e.e., oherwydd achos o lên-ladrad neu ddefnyddio melin draethodau) o dan Weithdrefn Uniondeb Academaidd y Brifysgol.

Efallai y bydd achosion pan fydd asesiad yn gofyn ichi ddefnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i lunio testun penodol i'w asesu. Rhoddir gwybod i chi os mai dyma'r achos.

Hefyd, gall fod cyfyngiadau neu reolau penodol o ran defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ar raglenni achrededig proffesiynol. Os yw hyn yn wir, bydd hyn yn cael ei esbonio i chi.

## Beth os oes gennyf gwestiwn am asesiad?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am asesiad penodol, dylech drafod hynny gyda'r aelod staff a roddodd yr asesiad ichi.